Llinos Lanini : Ffotograffydd

Cof gwael sydd gan Llinos ers pan oedd yn ifanc iawn ac y mae geiriau ac, erbyn hyn, delweddau yn hanfodol i Llinos, i gofnodi byd o eiliadau byrhoedlog. Eiliadau mewn tirweddau gwledig a diwydiannol, tirwedd dinasoedd, bywydau pobl, ei bywyd hi. Eiliadau bychan, syml a chymhleth.

Yn aml, mae natur yn rhoi mwy na help llaw i Llinos trwy ddarparu goleuni a thywydd ysblennydd i dynnu lluniau sy'n adlewyrchu'r teimlad o'r hyn y mae yn ei weld.

Ar ôl wyth mlynedd o wneud Gwaith Cymdeithasol yn Llundain a phymtheng mlynedd fel Therapydd Perthynas a Theuluoedd, newidiodd bywyd Llinos yn fuan ar ôl hynny wedi iddi ddigwydd prynu camera a chyfarfod yn annisgwyl â defaid ar ochr bryn. Enillodd y llun o'r defaid hynny gystadleuaeth yn y Daily Telegraph a chomisiwn yn Singapore – i dynnu lluniau ar gyfer Calendr Bwrdd Croeso Singapore yn 2007.

Enillodd Llinos y Wobr Ffotograffiaeth yn 'Artist Cymreig y Flwyddyn 2010' a chyrhaeddodd y rownd derfynol yn 2009. Rhoes Llyfrgell Genedlaethol Cymru wahoddiad iddi siarad yn eu Gŵyl Lens VI, 'Wales and the World', Tachwedd 2010.

Mae Trevillion a Millenium Picture Libraries wedi cymryd nifer o luniau Llinos a gwerthwyd pump ohonynt yn ddiweddar i'w defnyddio ar gloriau llyfrau yn Yr Iseldiroedd, Sbaen, Lloegr a'r Unol Daleithiau.

Mae Llinos yn gweithio ar ei liwt ei hun ac wedi ei dysgu ei hun. Mae'n arddangos casgliad o brintiau ffotograffig, yn creu delweddau ar gyfer artistiaid, llyfrgelloedd lluniau, cylchgronau, cwmnïau cyhoeddi ac mae'n derbyn comisiynau gan unigolion, elusennau a busnesau.

Arddangosfeydd yn y dyfodol :
Venue Cymru, Llandudno, 09.02.12 – 31.04.12
Manorhouse Rhuthun, Medi – Rhagfyr 2012
www.llinoslanini.com